# Powys County Council
# Councillor's Annual Report

This report gives details of the Councillor’s key activities over the year ending 17 May, 2023. It is provided for the information of all constituents and for no other purpose.

| | |
|---|---|
| **Councillor:** Matthew J. Dorrance | **Tel/Mobile:** 01874 611980/ 07507 597503 |
| **Ward:** Brecon West | **website:** www.matthewdorrance.com |
| **Shire:** Brecknockshire | **Email:** cllr.matthew.dorrance@powys.gov.uk |
| **Group:** Welsh Labour | **Date:** 2022-2023 |

**Section 1: Role & Responsibilities**

Details of the Committees and Working Groups in which I participated and my attendance are available via the following link to my page on the Council website: Committees & attendance

I was the Welsh Labour Group Leader.

I served on the following outside organisations:
Priory Church in Wales School Governing Body
New Start Centre/Pupil Referral Unit Governing Body
Welsh Local Government Association

**Section 2: Constituency activity**

Advice Surgeries:
I have held monthly advice surgeries at Brecon Library on the first Saturday of each month between 10am and 11.30am. I hold these surgeries jointly with Cllr David Meredith, Cllr Liz Rijnenberg and Cllr Chris Walsh. I also hold regular doorstep surgeries and knock doors to talk to residents about their ideas and concerns.

Casework:
I have helped more than 250 residents with individual casework issues over the last year. These casework enquires have involved supporting residents and advocating on their behalf with Council services and external agencies.

School Uniform Swop Shop:
I have continued to organise and hold School Uniform Swop Shop events in Brecon. These “pop-up” events help families access pre-loved uniform items to help reduce the volume of items going to landfill and help tackle the cost of living crisis.

Team Brecon:
I have continued to organise regular litter picking sessions in Brecon to help keep our community tidy.

I have worked with Cllr David Meredith, Cllr Liz Rijnenberg and Cllr Chris Walsh to hold town centre clean-up events which are also supported by residents, Town Councillors and local organisations such as Brecon Rotary.

Love Where You Live:

I worked with the Council's Housing Service to organise and run a Big Recycle Day in Brecon West Ward.

As part of the Big Recycle Day, skips were provided at Uplands and Llanfaes with estate caretakers helping residents move larger items with vans.

Flying Start/Enfys Fach:
I have continued to work with Council officers on the development of a new Flying Start and Childcare Centre in Brecon.

I have continued as Chair of Trustees of Flying Start/Enfys Fach. The work to develop the new centre has included grants from the Welsh Government to develop the new building and the new play park in Priory Groves.

Schools:
I visited Llanfaes Primary School to meet the head teacher, see the school and meet learners. I also continued as a governor at Priory Church in Wales School and the New Start Centre.

Community:
I have attended meetings with local organisations such as Brecknock Access Group, Brecon Jazz Club and held site meetings with residents to discuss local issues.

I attended a meeting with the Police and Crime Commissioner at Theatr Brycheiniog. I attended a meeting with Asbri Planning, Hale Construction and Wales and West Housing Association to discuss proposals for the development of an extra care facility in Brecon.

I regularly attend community events and support local organisations.

**Section 3: Learning & Development**

Details of my attendance at learning and development sessions are available via the following link to my page on the Council website:
Member development & seminars

**Section 4: Outside organisations and other activities**

In addition to my role as the Councillor for Brecon West Ward I am the Leader of the Council's Welsh Labour Group. As a Group Leader, I am responsible for the day to day running of Labour in local government and I work closely with Labour Councillors to develop our policy ideas and influence the way the Council works.

I am a Member of Brecon Town Council and a member of the Brecknock Welfare Trust.

# Cyngor Sir Powys
# Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion am weithgareddau allweddol y Cynghorydd dros y flwyddyn a ddaeth i ben 17 Mai, 2023. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall.

| | |
|---|---|
| **Cynghorydd:** Matthew J. Dorrance | **Ffôn:** 01874 611980/ 07507 597503 |
| **Ward:** Gorllewin Aberhonddu | **Gwefan:** www.matthewdorrance.com |
| **Ardal:** Sir Frycheiniog | **E-bost:** cllr.matthew.dorrance@powys.gov.uk |
| **Grŵp:** Llafur Cymru | **Dyddiad:** 2022-2023 |

**Adran 1: Rôl a Chyfrifoldebau**

Mae manylion y Pwyllgorau a Gweithgorau yr wyf wedi cymryd rhan ynddynt ynghyd â fy mhresenoldeb ar gael trwy ddilyn y ddolen ganlynol i fy nhudalen ar wefan y Cyngor: Pwyllgorau a phresenoldeb

Roeddwn yn Arweinydd Grŵp Llafur Cymru.

Gwasanaethais ar y cyrff allanol hyn:
Corff Llywodraethu Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Priordy
Corff Llywodraethu Canolfan Addysg Cychwyn Newydd/Uned Cyfeirio Disgyblion
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

**Adran 2: Gweithgaredd yn yr Etholaeth**

Cymorthfeydd:
Rwyf wedi cynnal cymorthfeydd misol yn Llyfrgell Aberhonddu ar ddydd Sadwrn cyntaf bob mis rhwng 10am - 11.30am. Rwyf yn cynnal y cymhorthfeydd hyn ar y cyd â'r Cyng. David Meredith, y Cyng. Liz Rijnenberg a'r Cyng. Chris Walsh. Hefyd rwyf yn cynnal cymhorthfeydd rheolaidd ar garreg y drws ac yn curo drysau er mwyn siarad â thrigolion am eu syniadau a'u pryderon.

Gwaith achos:
Rwyf wedi helpu mwy na 250 o drigolion gyda phroblemau gwaith achos unigol dros y flwyddyn aeth heibio. Mae'r ymholiadau gwaith achos hyn wedi cynnwys cefnogi trigolion ac eirioli ar eu rhan gyda gwasanaethau'r Cyngor ac asiantaethau allanol.

Siop Gyfnewid Gwisg Ysgol:
Rwyf wedi parhau i drefnu a chynnal digwyddiadau Siop Gyfnewid Gwisg Ysgol yn Aberhonddu. Mae'r digwyddiadau "achlysurol" hyn yn helpu teuluoedd i gael hyd i eitemau gwisg ysgol ail law er mwyn helpu lleihau'r eitemau sy'n mynd i safleoedd tirlenwi ac i helpu mynd i'r afael â'r argyfwng costau byw.

Tîm Aberhonddu:
Rwyf wedi parhau i drefnu sesiynau hel sbwriel rheolaidd yn Aberhonddu i helpu cadw ein cymuned yn daclus.

Rwyf wedi gweithio gyda'r Cyng. David Meredith, y Cyng. Liz Rijnenberg a'r Cyng. Chris Walsh er mwyn cynnal digwyddiadau glanhau canol y dref, a gefnogir hefyd gan drigolion, Cynghorwyr Tref a sefydliadau lleol megis Clwb Rotari Aberhonddu.

Caru lle r'ych chi'n byw:
Rwyf wedi gweithio gyda Gwasanaeth Tai'r Cyngor i drefnu a rhedeg Diwrnod Ailgylchu Mawr yn Ward Gorllewin Aberhonddu.

Fel rhan o'r Diwrnod Ailgylchu Mawr, darparwyd sgipiau yn ardaloedd Uplands a Llanfaes gyda gofalwyr ystadau'n helpu trigolion eitemau mwy o faint gyda faniau.

Dechrau'n Deg/Enfys Fach:
Rwyf wedi parhau i weithio gyda swyddogion y Cyngor ar ddatblygu Canolfan Dechrau'n Deg a Gofal Plant newydd yn Aberhonddu.

Rwyf wedi parhau fel Cadeirydd Ymddiriedolwyr Dechrau'n Deg/Enfys Fach. Mae'r gwaith i ddatblygu'r ganolfan newydd wedi golygu grantiau gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu'r adeilad newydd a'r parc chwarae newydd yn Rhodfa'r Priordy.

Ysgolion:
Rwyf wedi ymweld ag Ysgol Gynradd Llanfaes i gwrdd â'r pennaeth newydd, gweld yr ysgol a chwrdd â dysgwyr. Rwyf hefyd wedi parhau fel llywodraethwr Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Priordy, a'r Ganolfan Cychwyn Newydd.

Y Gymuned:
Rwyf wedi mynychu cyfarfodydd gyda sefydliadau lleol megis Grwp Mynediad Brycheiniog, Clwb Jazz Aberhonddu ac wedi cynnal cyfarfodydd safle gyda thrigolion er mwyn trafod materion lleol.

Roeddwn yn bresennol mewn cyfarfod gyda Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn Theatr Brycheiniog. Roeddwn mewn cyfarfod gyda chwmni Asbri Planning, Hale Construction a Chymdeithas Tai Cymru a'r Gorllewin er mwyn trafod cynigion i ddatblygu cyfleuster gofal ychwanegol yn Aberhonddu.

Rwyf yn mynychu digwyddiadau cymunedol yn rheolaidd ac yn cefnogi sefydliadau lleol.

**Adran 3: Dysgu a Datblygu**

Mae manylion fy mhresenoldeb yn y sesiynau dysgu a datblygu ar gael trwy ddilyn y ddolen ganlynol i fy nhudalen ar wefan y Cyngor:
Seminarau a sesiynau Datblygu Aelodau

**Adran 4: Sefydliadau allanol a gweithgareddau eraill**

Ar ben fy rôl fel Cynghorydd dros Ward Sant Ioan, Aberhonddu, fi hefyd yw Arweinydd Grŵp Llafur Cymru'r Cyngor. Fel Arweinydd y Grŵp, rwyf yn gyfrifol am redeg Llafur yn ddyddiol o fewn llywodraeth leol ac rwyf yn gweithio'n agos gyda Chynghorwyr Llafur i ddatblygu ein syniadau ar bolisi ac i ddylanwadu ar y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio .

Rwyf yn aelod o Gyngor Tref Aberhonddu, ac yn aelod o Ymddiriedolaeth Lles Brycheiniog .

## Portfolio Holder's Annual report

| |
|---|
| **Section 1: Deputy Leader and Cabinet Member for a Fairer Powys**<br>My Portfolio responsibilities included the following:<br>• Housing Service, including Gypsies and Travellers<br>• Tackling Poverty including Money Advice Service<br>• Violence Against Women, Domestic Abuse & Sexual Violence, incl. White Ribbon Pledge<br>• Equality & Diversity<br>• Armed Forces Partnership and Champion |
| **Section 2: Portfolio Holder's activities**<br>**Housing Service, including Gypsies and Travellers:**<br>Through the development of the Progressive Partnership Agreement and Stronger, Fairer, Greener (our Corporate and Strategic Equality Plan) I have worked to ensure that housing and council housing has a high profile within the Council and our work.<br><br>Through the development of Stronger, Fairer, Greener which I co-led with the Cabinet Member for a Connected Powys the Council has set its ambition to build new council homes, bring back empty properties into use and buy homes to add to its housing stock.<br><br>I have chaired the Strategic Housing Partnership (SHP). The SHP is a partnership between the Council and eight Registered Social Landlords in Powys. The SHP shares best practice, manages the Common Housing Register policies, and works to identify opportunities for social housing development.<br><br>I have actively engaged with the Council's Tenant Scrutiny Panel (TSP) and worked with the panel to ensure our tenants views and experiences are heard and represented in our decision making as a housing service. I attended the TPAS annual conference with members of the TSP to learn more about the challenges and opportunities within the housing sector.<br><br>I have visited homes in Powys to see the standard and quality of accommodation the Council provides and I have responded to high volumes of correspondence from Councillors, MPs and MSs on housing related matters.<br><br>I have taken At Home in Powys, the Council's Housing Revenue Account Business plan, through Cabinet and gained approval. The plan which works on a rolling thirty-year basis, sets out the financial management plans needed for the Council to successfully manage and provide secure, affordable homes.<br><br>**Tackling Poverty including Money Advice Service:**<br>The Progressive Partnership Agreement set out that the Council would establish a Child Poverty Task Force and I launched this in July 2022. The Task Force brought professionals from the Council, partner organisations and external experts including Children in Wales and the Bevan Foundation together. The Task Force focussed on auditing current provision and identifying gaps in provision.<br><br>Powys' first Child Poverty Action Plan was published in February 2023 at the first Child Poverty Task Force Conference. The Action Plan identifies a series of actions and interventions needed to improve the experiences of children families in Powys. |

I have met regularly with the Chief Officer of Powys Citizens Advice to discuss the impacts of the Cost of Living crisis on the people of Powys. These meetings have provided invaluable insight and enabled opportunities for partnership working.

I worked with the Cabinet Member for Finance and Corporate Transformation, the Head of Finance and the Senior Income and Awards Manager to develop the Discretionary Cost of Living Support fund. This fund was established with the support of Welsh Government funding and it provided more than £1 million in funding to residents and communities in Powys to help mitigate the impacts of the cost-of-living crisis.

**Violence Against Women, Domestic Abuse & Sexual Violence, incl. White Ribbon Pledge:**
I actively support the work of the White Ribbon Steering Group and have led this as a lead ambassador for the Council. The Council became an accredited White Ribbon organisation and has developed an action plan which sets the organisation's commitment to ending harmful cultures. The work of the Council was showcased at the Royal Welsh Show and a cross party steering group has been established to promote the work within the Council and our communities. I took part in the White Ribbon Walk in Brecon with Councillors, staff, Calon DVS and members of the community.

**Equality & Diversity:**
I have worked with the Council to ensure Powys County Council joined the Proud Councils Network and Powys County Council took part in the 2022 Pride Cymru parade. I have worked with the Cabinet, Management Team and Councillors through the development of Stronger, Fairer, Greener to ensure that equalities and diversity are fully integrated into the Council's plan. I have attended meetings organised by the Welsh Local Government Association with Welsh Ministers to discuss and plan how the Council will take forward the LGBTQ+ Action Plan for Wales and the Anti-racist Wales Action Plan.

**Armed Forces Partnership and Champion:**
I have chaired the Armed Forces Covenant Regional Partnership, developed relationships with the Armed Forces Community, attended national forums to discuss and plan how local government in Wales can support our armed forces families and I led the relaunch of the guaranteed interview scheme for veterans which the Council operates.

**Deputy Leader:**
I have deputised for the Leader when required and worked to support the ambitions of the Progressive Partnership Agreement. I have worked to provide senior leadership and support within the Council's political structures and undertaken appraisals with the Chief Executive and Senior Officers within the Council. I joined the Planning Improvement Board and I am supporting the work of the board within the Council. I attended the First Minister's summit on the challenges of phosphorus pollution in Wales.

**Section 3: Portfolio Holder and Cabinet representation on outside organisations etc.**

Welsh Local Government Association Council
Armed Forces Covenant Regional Partnership

# Adroddiad Blynyddol yr Aelodau Portffolio

**Adran 1: Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet ar gyfer Powys Decach**

Roedd fy nghyfrifoldebau portffolio yn cynnwys y canlynol:

- Gwasanaethau Tai, gan gynnwys Sipsiwn a Theithwyr
- Mynd i'r afael â thlodi gan gynnwys Y Gwasanaeth Cyngor Ariannol
- Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, gan gynnwys Addewid y Rhuban Gwyn
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Partneriaeth a Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog

**Adran 2: Gweithgaredd yr Aelod Portffolio**
**Y Gwasanaeth Tai, gan gynnwys Sipsiwn a Theithwyr:**
Trwy ddatblygu’r Cytundeb Partneriaeth Blaengar a Chryfach, Tecach, Gwyrddach (ein Cynllun Corfforaethol a Chydraddoldeb Strategol) rwyf wedi gweithio i sicrhau fod gan dai a thai cyngor broffil uchel o fewn y Cyngor a’n gwaith.

Trwy gyd-arwain ar ddatblygu Cryfach, Tecach, Gwyrddach, gydag Aelod y Cabinet ar gyfer Cysylltu Powys, mae’r Cyngor wedi gosod uchelgais i adeiladu tai cyngor newydd, sicrhau bod eiddo gwag yn cael eu defnyddio eto, a phrynu cartrefi i ychwanegu at ei stoc o dai.

Rwyf wedi cadeirio’r Bartneriaeth Tai Strategol (PTS). Partneriaeth yw hon rhwng y Cyngor ac wyth o Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ym Mhowys. Mae’r PTS yn rhannu arfer orau, yn rheoli polisïau’r Gofrestr Tai Cyffredin, ac yn gweithio i adnabod cyfleoedd i ddatblygu tai cymdeithasol.

Rwyf wedi ymgysylltu â Phanel Craffu Tenantiaid y Cyngor (PCT) ac wedi gweithio gyda’r panel i sicrhau y caiff barn a phrofiadau ein tenantiaid eu clywed a’u cynrychioli wrth inni wneud penderfyniadau fel gwasanaeth tai. Rwyf wedi mynychu cynhadledd flynyddol TPAS gydag aelodau’r PCT er mwyn dysgu rhagor ynghylch yr heriau a’r cyfleoedd sy’n bodoli o fewn y sector tai.

Rwyf wedi ymweld â chartrefi ym Mhowys i weld safon ac ansawdd y llety a ddarperir gan y Cyngor, ac rwyf wedi ymateb i lawer iawn o ohebiaeth gan Gynghorwyr, Aelodau Seneddol ac Aelodau o Senedd Cymru ar faterion yn ymwneud â thai.

Rwyf wedi prosesu cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai’r Cyngor, “Gartref ym Mhowys”, trwy’r Cabinet ac wedi llwyddo i’w gymeradwyo. Mae’r cynllun, sy’n gweithio ar sail tri deg o flynyddoedd, yn olrhain y cynlluniau rheolaeth ariannol sydd eu hangen er mwyn i’r Cyngor lwyddo i reoli a darparu cartrefi diogel, fforddiadwy.

**Mynd i’r Afael â Thlodi gan gynnwys y Gwasanaeth Cyngor Ariannol:**
Mae Cytundeb Partneriaeth Blaengar y Cyngor yn olrhain y byddai’r Cyngor yn sefydlu Tasglu Tlodi Plant, a lansiwyd hyn ym mis Gorffennaf 2022. Mae’r Tasglu wedi dod â gweithwyr proffesiynol y Cyngor, sefydliadau partner ac arbenigwyr allanol, gan gynnwys Plant yng Nghymru a Sefydliad Bevan, ynghyd. Mae’r Tasglu’n canolbwyntio ar archwilio darpariaeth gyfredol ac adnabod bylchau mewn darpariaeth.

Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Tlodi Plant cyntaf Powys ym mis Chwefror 2023 yng Nghynhadledd gyntaf y Tasglu Tlodi Plant. Mae’r Cynllun Gweithredu’n adnabod cyfres

o gamau gweithredu ac ymyriadau sydd eu hangen er mwyn gwella profiadau plant a theuluoedd ym Mhowys.

Rwyf wedi cwrdd yn rheolaidd gyda Phrif Swyddog Cyngor ar Bopeth Powys i drafod effaith yr argyfwng Costau Byw ar drigolion Powys. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi bod yn hynod ddefnyddiol ac wedi galluogi cyfleoedd ar gyfer gwaith partneriaeth.

Rwyf wedi gweithio gydag aelod y Cabinet ar gyfer Cyllid a Thrawsnewid Corfforaethol, y Pennaeth Cyllid a'r Uwch-reolwr Incwm a Dyfarniadau er mwyn datblygu'r gronfa Cymorth Costau Byw yn ôl Disgresiwn. Sefydlwyd y gronfa hon gyda chymorth cyllid Llywodraeth Cymru, a darparwyd cyllid gwerth dros £1 miliwn i drigolion a chymunedau ym Mhowys i helpu lliniaru effaith yr argyfwng costau byw.

**Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, gan gynnwys Addewid y Rhuban Gwyn:**
Rwyf yn gweithio i gefnogi gwaith Grŵp Llywio'r Rhuban Gwyn ac wedi arwain ar hyn fel llysgennad ar ran y Cyngor. Derbyniodd y Cyngor statws sefydliad Rhuban Gwyn achrededig ac mae wedi llunio cynllun gweithredu sy'n olrhain ymrwymiad y sefydliad i ddileu diwylliannau niweidiol. Dangoswyd gwaith y Cyngor yn Sioe Frenhinol Cymru, a sefydlwyd grŵp llywio trawsbleidiol i hyrwyddo'r gwaith o fewn y Cyngor ac yn ein cymunedau. Cymerais ran yn Nhaith Gerdded y Rhuban Gwyn yn Aberhonddu ar y cyd â Chynghorwyr, staff, Calon DVS ac aelodau'r gymuned.

**Cydraddoldeb ac Amrywiaeth:**
Rwyf wedi gweithio gyda'r Cyngor i sicrhau fod Cyngor Sir Powys wedi ymaelodi â Rhwydwaith Cynghorau Balch, ac mae Cyngor Sir Powys wedi cymryd rhan yng ngorymdaith Pride Cymru 2022. Rwyf wedi gweithio gyda'r Cabinet, y Tîm Rheoli a Chynghorwyr trwy ddatblygu Cryfach, Tecach, Gwyrddach er mwyn sicrhau y caiff cydraddoldeb ac amrywiaeth eu hintegreiddio'n llwyr i gynllun y Cyngor. Rwyf wedi mynychu cyfarfodydd a drefnwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gyda Gweinidogion Cymru i drafod a chynllunio sut bydd y Cyngor yn symud ymlaen gyda Chynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru a Chynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Cymru.

**Partneriaeth a Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog:**
Rwyf wedi cadeirio Partneriaeth Ranbarthol Cyfamod y Lluoedd Arfog, wedi datblygu cysylltiadau gyda Chymuned y Lluoedd Arfog, wedi mynychu fforymau cenedlaethol er mwyn trafod a chynllunio sut y gall llywodraeth leol yng Nghymru gefnogi teuluoedd y lluoedd arfog, a bues i'n arwain ail-lansio'r cynllun gwarantu cyfweliad ar gyfer cyn-filwyr, sy'n cael ei redeg gan y Cyngor.

**Dirprwy Arweinydd:**
Rwyf wedi dirprwyo ar ran yr Arweinydd pan fo angen, ac wedi gweithio i gefnogi uchelgais y Cytundeb Partneriaeth Blaengar. Rwyf wedi gweithio i ddarparu uwch arweinyddiaeth a chefnogaeth o fewn strwythurau gwleidyddol y Cyngor ac wedi cynnal arfarniadau gyda'r Prif Weithredwr ac Uwch Swyddogion y Cyngor. Rwyf wedi ymuno â'r Bwrdd Cynllunio Gwelliant ac rwyf yn cefnogi gwaith y bwrdd o fewn y Cyngor. Roeddwn yn bresennol ar gyfer uwchgynhadledd Prif Weinidog Cymru ar heriau llygredd ffosfforws yng Nghymru.

**Adran 3: Cynrychiolaeth fel Deiliad Portffolio ac Aelod o'r Cabinet ar gyrff allanol ac ati.**

Cyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Partneriaeth Ranbarthol Cyfamod y Lluoedd Arfog